Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru:

# Cynllun Lwfans Cynhaliaeth Addysg

# a

# Chynllun Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach)

# Blwyddyn Academaidd 2026 i 2027

SFWIN 05/2026

2026

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn rhoi manylion y cynlluniau grant addysg bellach canlynol, sy'n seiliedig ar incwm, ar gyfer blwyddyn academaidd 2026 i 2027:

- Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
- Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach) (GDLlC (AB)).

Mae'r cynlluniau ar gael i'w gweld ar y dudalen cyllid i fyfyrwyr.

Sicrhewch fod yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn cael ei ddosbarthu i bob un o'r staff a'r cydweithwyr sy'n helpu i weinyddu'r cynlluniau.

## Gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru a sut i wneud cais

Bydd gwasanaeth ymgeisio Cyllid Myfyrwyr Cymru ar agor ar 27 Ebrill 2026 ar gyfer blwyddyn academaidd 2026 i 2027.

Gallwch lenwi ffurflen gais ar-lein drwy Cyllid Myfyrwyr Cymru neu drwy ofyn am ffurflen bapur gan y ganolfan ddysgu.

I gael gwybodaeth a chyngor cysylltwch â gwasanaeth cwsmeriaid dwyieithog Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0300 200 4050.

## Trothwyon incwm aelwydydd sy'n gymwys i gael LCA

Mae trothwyon incwm aelwydydd sy'n gymwys i gael LCA wedi'u cynyddu ar gyfer blwyddyn academaidd 2026 i 2027.

**Trothwyon incwm LCA yn y flwyddyn academaidd 2025 i 2026:**

£23,400 – aelwydydd ag un plentyn dibynnol
£25,974 – aelwydydd â dau neu fwy o blant dibynnol

**Trothwyon incwm LCA yn y flwyddyn academaidd 2026 i 2027:**

£24,570 – aelwydydd ag un plentyn dibynnol
£27,273 – aelwydydd â dau neu fwy o blant dibynnol

Bydd y gyfradd wythnosol ar gyfer LCA o £40 yn cael ei chynnal ar gyfer blwyddyn academaidd 2026 i 2027.

Mae'r ffurflen gais LCA ar-lein a phapur a'r nodiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2026 i 2027 yn dangos y trothwyon incwm newydd. Dim ond myfyrwyr newydd neu fyfyrwyr sy'n parhau â'u cwrs ac sy'n gwneud cais am LCA am y tro cyntaf a ddylai lenwi ffurflen 2026 i 2027.

## Grantiau a throthwyon incwm GDLIC (AB)

Mae grantiau a throthwyon incwm GDLIC (AB) wedi'u cynnal ar yr un lefelau â blwyddyn academaidd 2025 i 2026.

## Meini prawf cymhwystra – personau cymwys

Mae'r newidiadau canlynol i'r meini prawf cymhwystra wedi'u gwneud i gynlluniau LCA a GDLIC (AB) ar gyfer blwyddyn academaidd 2026 i 2027, gan sicrhau meini prawf cyson mewn perthynas â threfniadau cymorth ar gyfer costau cynhaliaeth i fyfyrwyr AB a myfyrwyr AU.

### Partneriaid a phlant cyn-filwyr y Gurkhas a'r rhai o Hong Kong sydd wedi marw neu a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997

Rydym wedi ymestyn cwmpas y categori ar gyfer cymhwystra partneriaid a ddiogelir i gynnwys partneriaid a phlant cyn-filwyr y Gurkhas a'r rhai o Hong Kong sydd wedi marw neu a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997.

### Personau a ddyfarnwyd caniatâd amhenodol iddynt ddod i mewn i'r DU neu aros yn y DU o dan gynllun Llwybr Ymateb Afghanistan

Rydym wedi ymestyn cwmpas y categori ar gyfer cymhwystra person sydd â chaniatâd i ddod i mewn i'r DU neu i aros fel dinesydd Afghanistan perthnasol i gynnwys Llwybr Ymateb Afghanistan.

## Ymholiadau

Os oes gennych ymholiadau am geisiadau, sut i wneud cais, taliadau neu unrhyw agwedd arall ar y gwasanaeth, cysylltwch â Cyllid Myfyrwyr Cymru .

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn anfonwch e-bost i Is-adran Strategaeth a Chyllid Addysg Drydyddol Llywodraeth Cymru.

Gallwch ofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.